

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

{my}dentist, Y Stryd Fawr, Bargod
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 2 Awst 2022

Dyddiad cyhoeddi: 2 Tachwedd 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o bractis deintyddol {my}dentist, Y Stryd Fawr, Bargod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 2 Awst 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i llunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Canfuom fod y staff yn gwneud ymdrech i roi profiad da i gleifion wrth ymweld â'r practis. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd gan y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC hefyd yn cadarnhau hyn.

Roedd gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a ddarperir gan y practis wedi'i harddangos neu ar gael i gleifion.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a gwelsom staff yn trin cleifion â pharch a chwarteisi.

Er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu gofal amserol i gleifion, roedd sylwadau a dderbyniwyd gan gleifion yn nodi nad oedd bob amser yn hawdd iddynt gael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Nid oedd pob claf yn ymwybodol o sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol 'y tu allan i oriau'.

Roedd gan y practis weithdrefn gwyno addas, ond mae angen i'r practis sicrhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn gywir ac yn gyson â'r weithdrefn ysgrifenedig.

Dyma rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella:

- Dywedodd y cleifion wrthym nad oedd bob amser yn hawdd cael apwyntiad ac mae angen i'r practis archwilio sut i wella'r drefn fel y gall cleifion gael apwyntiadau
- Mae angen i'r practis wneud trefniadau i wella ymwybyddiaeth y cleifion o sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol 'y tu allan i oriau'
- Mae angen i'r wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion ynglŷn â gweithdrefn gwyno'r practis fod yn gywir ac yn gyson â'r weithdrefn gwyno.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym fod y tîm deintyddol yn esbonio pethau iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall
- Roedd addasiadau rhesymol wedi'u gwneud i wneud y gwasanaethau'n hygyrch i'r cleifion.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod amgylchedd y practis yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg a oedd yn peri risg i ddiogelwch y cleifion neu'r staff.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol y gellir eu hailddefnyddio, a oedd yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd offer i'w defnyddio pe bai achos brys yn hawdd eu cyrchu ac roedd y rhain wedi'u harchwilio'n rheolaidd.

Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol ac yn medru cael eu glanhau yn effeithiol. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel yn y practis.

Roedd gan y staff sy'n gweithio yn y practis fynediad at ystod o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i'w harwain yn eu gwaith.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a archwiliwyd gennym o safon foddhaol, ond nodwyd bod angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi'n gyson.

Dyma rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella:

- Mae angen gwneud trefniadau mewn perthynas ag agweddau ar gadw cofnodion yng nghofnodion deintyddol y cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd ystod o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i'r staff, ac roedd y rhain wedi'u hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd
- Roedd gan y practis ystafelloedd triniaeth â chyfarpar da a oedd yn medru cael eu glanhau'n effeithiol ac ystafell ddihalogi ddynodedig
- Cafodd proses effeithiol ei dangos ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol y gellir eu hailddefnyddio sy'n cael ei ddefnyddio yn y practis.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli'r practis o ddydd i ddydd, a disgrifiodd y rheolwr systemau da ar gyfer cyfleu gwybodaeth yn ymwneud â'r gwaith i dîm y practis.

Er bod gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen gwybodaeth i gleifion cyfredol, gwnaethom nodi bod angen gwneud rhai mân newidiadau i'r rhain fel bod yr wybodaeth sydd ynddynt yn gyson.

Gallai'r staff gael hyfforddiant ar ystod o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis. Gwelsom gydymffurfedd da â hyfforddiant gorfodol staff.

Dyma rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella:

- Mae angen gwneud trefniadau i adolygu a diwygio'r datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion i gyfeirio at y rheoliadau cywir ac fel bod yr wybodaeth yn y ddwy ddogfen yn gyson.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd systemau da ar waith ar gyfer cyfleu gwybodaeth yn ymwneud â'r gwaith i dîm y practis
- Roedd cydymffurfedd da â hyfforddiant gorfodol staff.

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu safbwyntiau ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 16 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd mwyafrif yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion, a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am ddwy flynedd neu fwy.

Roedd yr ymatebion yn yr holiaduron yn nodi bod y cleifion wedi cael profiad cadarnhaol wrth ymweld â'r practis. Fodd bynnag, pan ofynnwyd sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Mwy o apwyntiadau”

“Rhoi'r gorau i ganslo apwyntiadau”

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd i helpu i leihau lledaeniad COVID-19. Gwelsom fod sgriniau clir wedi'u gosod wrth y ddesg yn y dderbynfa i ddiogelu'r staff a'r cleifion a oedd yn ymweld â'r practis, a bod lle wedi'i adael rhwng cadeiriau yn y man aros.

Gwelsom hefyd fod posterï wedi'u harddangos yn amlwg yn atgoffa'r cleifion i gynnal pellter cymdeithasol, i lanweithio eu dwylo wrth ddod i mewn i'r adeilad ac i wisgo masg i helpu i leihau lledaeniad y feirws. Cadarnhaodd y staff ei bod yn ofynnol i'r cleifion ateb cyfres o gwestiynau sgrinio am COVID-19 cyn eu hapwyntiad.

O'r 14 claf a atebodd y cwestiwn am weithdrefnau COVID-19 yn holiadur AGIC, dywedodd 13 o gleifion wrthym fod gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â COVID-19 yn amlwg iawn yn ystod eu cyfnod yn y practis a dywedodd un wrthym eu bod yn weddol amlwg.

Roedd taflenni a phosterï yn nodi manteision iechyd rhoi'r gorau i ysmegu wedi'u harddangos ac roedd arwydd yn hysbysu cleifion na chaniateir ysmegu yn y practis wedi'i arddangos yn glir.

Pan ofynnwyd a oedd y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach, dywedodd 13 o'r 16 o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y tîm wedi gwneud hynny.

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

Gwelsom fod drysau i'r ystafelloedd triniaeth ar gau er mwyn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth dderbyn triniaeth. Gwnaethom gadarnhau y byddai sgysiau preifat yn cael eu cynnal yn yr ystafelloedd triniaeth. Yn ogystal, roedd ystafell ar gael er mwyn i'r cleifion allu siarad â staff yn breifat ac i alwadau ffôn gael eu gwneud neu eu cymryd yn breifat.

Gwelsom fod y staff yn gyfeillgar, ond yn broffesiynol, ac yn trin cleifion â pharch a chwarteisi.

Roedd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch yn y practis.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion yn cael ei harddangos yn Saesneg yn bennaf. Dywedwyd wrthym fod copiau hefyd ar gael yn Gymraeg ac roedd arwydd wedi'i arddangos yn amlwg yn hysbysu cleifion o hyn.

Pan ofynnwyd iddynt am eu dewis iaith, gwnaeth tri chlaf a gwblhaodd holiadur AGIC ddewis Cymraeg. O'r rhain, dywedodd dau glaf wrthym nad oeddent yn cael cynnig rhagweithiol i siarad Cymraeg drwy gydol eu taith fel claf, ond cadarnhawyd bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael iddynt yn Gymraeg.

Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i'r practis fel bod y staff yn gallu cyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf ac â chleifion sy'n fyddar.

Pan ofynnwyd iddynt a yw pethau bob amser yn cael eu hesbonio i'r cleifion yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall, dywedodd 15 o'r 16 o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod. Ni atebodd y claf arall y cwestiwn.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod enw'r practis ynghyd â'r oriau agor wedi'u harddangos yn amlwg, ac roedd modd eu gweld o'r tu allan i'r safle. Roedd y rhif ffôn cyswllt i'r cleifion ei ddefnyddio pe bai angen gofal deintyddol brys a thriniaeth 'y tu allan i oriau' hefyd i'w weld yn glir.

O'r 16 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC, dywedodd naw wrthym y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol 'y tu allan i oriau' os oes ganddynt broblem ddeintyddol frys a dywedodd chwech wrthym na fyddent yn gwybod sut i wneud hynny.

Gwelsom hefyd fod enwau'r deintyddion a'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y practis wedi'u harddangos yn glir ynghyd â rhifau cofrestru yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd amcan gost ar gyfer gofal a thriniaeth ddeintyddol breifat a'r GIG wedi'u harddangos yn glir.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion wneud apwyntiadau naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Dywedwyd wrthym fod y system archebu ar-lein wedi'i hatal dros dro mewn ymateb i COVID-19. Roedd hyn er mwyn rheoli nifer y cleifion a oedd yn mynychu'r practis er diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd y practis yn darparu apwyntiadau brys a disgrifiwyd system frysbenno i sicrhau bod yr apwyntiadau hyn yn cael eu dyrannu'n briodol.

Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi fel y gallent benderfynu a oeddent am aros neu aildrefnu eu hapwyntiad. Ar gyfer y cleifion sy'n hysbys i'r staff ac sy'n byw yn agos i'r practis, dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi cyn iddynt fynychu'r practis lle bynnag y bo modd.

Pan ofynnwyd pa mor hawdd oedd hi i gael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt, dywedodd pump o'r 16 claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad a dywedodd saith wrthym ei fod yn weddol hawdd a dywedodd pedwar nad oedd yn hawdd iawn.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom archwilio cofnodion gofal deg claf ac roedd y rhain yn cynnwys tystiolaeth o gynllunio triniaeth, cydsyniad y claf i driniaeth a manylion y driniaeth a ddarparwyd.

Pan ofynnwyd a oedd y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael pan fydd angen triniaeth arnynt, dywedodd 15 o'r 16 claf a gwblhaodd holiadur

wrthym fod y tîm wedi gwneud hynny. Teimlai'r un claf arall nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddo ef.

Hawliau pobl

Gwnaethom gadarnhau bod polisiau ysgrifenedig ar waith yn ymwneud â chyfle cyfartal, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedwyd wrthym fod disgwyl i'r staff ddarllen polisiau'r practis a chwblhau hyfforddiant yn ymwneud â hawliau pobl bob blwyddyn.

Gwelsom fod mynediad gwastad i'r safle ac roedd ystafell driniaeth ar y llawr daear y gellid ei defnyddio i weld y cleifion ag anawsterau symudedd. Roedd toiled anabl ar y llawr daear i'r cleifion ei ddefnyddio.

Rhoddwyd enghreifftiau i ni hefyd o addasiadau sy'n cael eu gwneud i helpu'r cleifion i gael mynediad at ofal a thriniaeth ddeintyddol yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael mewn print bras a gofyn cwestiynau sgrinio COVID-19 ar lafar yn hytrach na thrwy neges destun i'r cleifion heb ffôn symudol.

Dywedodd pob un o'r 15 o gleifion a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gyrchu neu ddefnyddio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis.

Gwranddo a dysgu o'r adborth

Gwnaethom gadarnhau bod gweithdrefn ysgrifenedig gyfredol ar waith ar gyfer ymateb i gwynion a dderbyniwyd am ofal deintyddol a thriniaeth y GIG a gofal deintyddol a thriniaeth breifat a ddarperir yn y practis. Roedd hon yn nodi'r broses ynghyd ag amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion.

Gwelsom hefyd fod gwybodaeth ysgrifenedig i'r cleifion am sut i wneud cwyn wedi'i harddangos yn amlwg yn yr ystafell aros. Arddangoswyd yr wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, roedd yr amserlenni a ddisgrifiwyd yn y fersiwn Gymraeg yn wahanol i'r rhai a ddisgrifiwyd yn y fersiwn Saesneg.

Roedd gwybodaeth arall a oedd yn cael ei arddangos hefyd yn cyfeirio'n anghywir at ddyddiad Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) fel '2007' yn hytrach na '2017' ac yn cyfeirio at 'Reoliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru' ac nid oedd yn glir beth oedd ystyr hyn. Roedd manylion cyswllt y bwrdd iechyd hefyd yn anghywir.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig system gofnodi a monitro cwynion a dderbyniwyd a oedd yn nodi themâu a thueddiadau. Cadarnhaodd y staff a siaradodd â ni fod adborth y cleifion yn cael ei rannu â nhw.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg a oedd yn peri risg i ddiogelwch y cleifion a'r staff. Roedd mynediad i ardaloedd staff yn unig wedi'i gyfyngu drwy ddefnyddio cloeon bysellbad a/neu arwyddion.

Roedd arwydd wedi'i arddangos y tu allan i'r ystafell ddihalogi ond nid oedd unrhyw fodd arall i atal mynediad anawdurdodedig i'r ystafell. Dywedwyd wrthym fod hyn er mwyn lleihau'r risg o anafiadau i'r staff sy'n cario offer halogedig i'r ystafell. Rydym yn argymhell bod asesiad risg ffurfiol yn cael ei gwblhau a bod camau'n cael eu cymryd yn ôl yr angen mewn perthynas â hyn.

Gwelsom fod asesiad risgiau tân wedi'i gwblhau ac roedd y camau gweithredu a nodwyd yn dilyn yr asesiad wedi'u hadolygu'n rheolaidd gan y rheolwr cofrestredig. Roedd allanfeydd tân wedi'u harwyddo'n glir ac roedd cyfarwyddiadau ar y camau gweithredu i'w cymryd pe bai tân wedi'u harddangos.

Gwelsom fod offer diogelwch tân yn hawdd eu cyrchu ac wedi derbyn gwiriadau cynnal a chadw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd gwiriadau rheolaidd o'r offer diogelwch tân a'r llwybrau dianc rhag tân wedi'u cofnodi yn y llyfr cofnodion tân ar gyfer y safle. Gwelsom hefyd fod ymarferion tân bob chwe mis wedi'u cofnodi.

Gwelsom fod poster iechyd a diogelwch yn atgoffa staff o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch wedi'i arddangos ynghyd â manylion cyswllt y person â chyfrifoldeb am iechyd a diogelwch yn y practis. Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom gadarnhau bod polisi ysgrifenedig priodol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Gwelsom fod y manau aros a'r ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn medru cael eu glanhau yn effeithiol.

Pan ofynnwyd iddynt am lendid amgylchedd y practis, dywedodd 15 o'r cleifion wrthym eu bod yn meddwl bod y practis yn lân iawn a theimlai un ei fod yn weddol lân.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth ac yn y toiledau. Roedd rhestrau gwirio ar waith i'r staff fedru cofnodi pan oeddent wedi cwblhau tasgau dyddiol yn ymwneud â'r ystafelloedd triniaeth. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn hawdd i'r staff ei ddefnyddio.

Roedd gan y practis ystafell ddihalogi ddynodedig, a dangoswyd proses effeithiol ar gyfer dihalogi offer y gellir eu hailddefnyddio sy'n cael eu defnyddio yn y practis. Roedd system addas ar waith i gludo offer halogedig o'r ystafelloedd triniaeth i'r ystafell ddihalogi. Gwelsom fod llyfrau cofnodion wedi'u cwblhau i ddangos bod y cyfarpar dihalogi a ddefnyddiwyd wedi cael ei wirio.

Gwelsom fod system ar waith i gynnal archwiliadau o'r trefniadau atal a rheoli heintiau a dihalogi yn y practis. Roedd yr offeryn archwilio yn cyd-fynd â'r canllawiau a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Dywedwyd wrthym fod gan y staff fynediad at gyngor a chymorth iechyd galwedigaethol.

Gwnaethom gadarnhau bod contract ar waith i drosglwyddo gwastraff a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel yn y practis nes iddo gael ei gasglu i'w waredu.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom gadarnhau bod polisi addas ar waith mewn perthynas â rheoli achosion meddygol brys yn y practis.

Gwelsom fod offer a chyffuriau i'w defnyddio mewn achos brys ar gael, wedi'u storio'n briodol ac yn hygyrch i'r staff. Roedd system addas ar waith i wirio'r offer brys yn rheolaidd a nodi pryd yr oedd angen adnewyddu'r cyffuriau.

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Gwnaethom gadarnhau bod polisi addas ar waith mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion mewn perygl. Roedd manylion cyswllt timau diogelu lleol ar gael yn hawdd i'r staff eu cyrchu.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac roeddent yn gallu disgrifio'r camau gweithredu y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryder ynghylch diogelu. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac roedd y cofnodion hyfforddi a archwiliwyd gennym yn cadarnhau hyn.

Roedd gan y practis arweinydd diogelu dynodedig a oedd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i lefel briodol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod gan yr ystafelloedd triniaeth offer addas i ddarparu gofal a thriniaeth ddeintyddol. Roedd yr offer i'w weld yn lân ac mewn cyflwr da.

Roedd pelydrau-X yn cael eu cyflawni yn y practis. Canfuom fod y dogfennau gofynnol ar waith mewn perthynas â defnyddio, cynnal a chadw a phrofi'r offer pelydr-X a ddefnyddir yn y practis.

Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddi a archwiliwyd gennym fod y staff a oedd yn ymwneud â chymryd pelydrau-X wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar y pwnc hwn o fewn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nid oedd gwybodaeth i gleifion ar fanteision a risgiau cael pelydr-X ar gael i'r cleifion.

Gofal effeithiol

Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol

Gwnaethom gadarnhau bod gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer derbyn, asesu, gwneud diagnosis ar gyfer y cleifion a'u trin. Roedd y rhain wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben ar gyfer y practis ac yn y polisiau ysgrifenedig a oedd ar gael i ni.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Disgrifiodd a dangosodd y rheolwr cofrestredig system gydymffurfio electronig y darparwr. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolwr cofrestredig gofnodi canlyniadau gweithgarwch archwilio fel rhan o'r broses monitro a sicrhau ansawdd.

Darparodd y rheolwr cofrestredig enghreifftiau o archwiliadau yr oedd angen eu cwblhau'n rheolaidd megis y rhai mewn perthynas â chofnodion deintyddol cleifion, y pelydrau-X a gyflawnir, presgripsiynau ac atal a rheoli heintiau.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu

Gwelsom fod systemau cyfathrebu addas ar waith i gefnogi gweithrediad y practis.

Canfuom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli cofnodion y cleifion yn ddiogel yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Cadw cofnodion

Gwnaethom gadarnhau bod polisi addas ar waith ar gyfer rheoli cofnodion a ddefnyddir yn y practis, a chanfod bod cofnodion yn cael eu storio'n briodol ac yn ddiogel.

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn cael eu cyrchu trwy system mewngofnodi a chyfrinair unigol er diogelwch.

Gwnaethom archwilio cofnodion deg claf a chanfod eu bod o safon foddhaol. Roedd yr holl gofnodion a archwiliwyd gennym yn cynnwys gwybodaeth i nodi pob claf yn gywir, yn cynnwys manylion y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd a bod cydsyniad y claf wedi'i gael.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwelliannau mewn perthynas â chofnodi'r manylion canlynol, a oedd ar goll ar gyfer tua thraean o'r nodiadau a archwiliwyd gennym:

- hanes cymdeithasol y claf gan gynnwys y defnydd o alcohol a thybaco
- hylendid y geg a deiet y claf gan gynnwys unrhyw gyngor a roddir
- hanes meddygol cychwynnol y claf (wedi'i gydlofnodi gan y deintydd neu weithiwr gofal deintyddol proffesiynol) ac unrhyw ddiweddariadau
- dewis iaith y claf
- diweddariadau mewn perthynas ag archwiliadau periodontol sylfaenol
- opsiynau triniaeth
- gwybodaeth atgyfeirio a gwybodaeth ddilynol
- y rheswm dros ragnodi triniaeth wrthfiotig i glaf, dos a hyd y driniaeth
- graddio pelydrau-X

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd rheolwr cofrestredig yn ei swydd a oedd yn cael ei gefnogi'n lleol gan dîm y practis a hefyd gan dimau dynodedig o fewn y sefydliad yr oedd y darparwr yn rhan ohono.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith i gefnogi'r staff yn eu rolau ac roedd y sampl a oedd ar gael i ni yn dangos eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a thrafod pynciau perthnasol a oedd yn effeithio ar y staff. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal a bod dulliau eraill o gyfathrebu'n cael eu defnyddio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am faterion sy'n ymwneud â'r gwaith.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben cyfredol a thaflen gwybodaeth i gleifion, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth i gleifion am y gwasanaethau a ddarperir yn y practis.

Nodwyd gennym fod angen rhai mân newidiadau i'r dogfennau uchod i gywiro gwallau. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Disodlwyd Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Mae angen cael gwared ar y cyfeiriadau at reoliadau 2008 yn y datganiad o ddiben
- Mae'r amseroedd agor a restrir yn y datganiad o ddiben yn wahanol i'r rhai a restrir yn y daflen gwybodaeth i gleifion. Mae angen i'r ddwy ddogfen fod yn gyson ac yn adlewyrchu'r amseroedd cywir.
- Roedd cyfeirnod yr hyperddolen ar gyfer gwefan y Cyngor Iechyd Cymuned yn anghywir a gellid defnyddio cyfeirnod hyperddolen ar gyfer tudalen gwe benodol 'Gweithio i Wella' yn hytrach na'r cyfeirnod ar gyfer gwefan gyffredinol GIG Cymru.

Roedd y darparwr a rheolwr y practis deintyddol wedi'u cofrestru yn AGIC fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac roedd tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos ger y dderbynfa.

Y Gweithlu

Roedd tîm y practis yn cynnwys rheolwr (practis) cofrestredig, deintyddion, hylenydd, nyrsys deintyddol, nyrsys dan hyfforddiant, derbynnydd a glanhawr.

Dywedwyd wrthym mai anaml iawn y câi staff asiantaeth eu defnyddio. Yn lle hynny, fel arfer gallai staff y practis neu staff sy'n gweithio mewn practis cyfagos a weithredir gan yr un sefydliad, gyflenwi pe bai angen.

Gwnaethom gadarnhau bod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith ar gyfer recriwtio staff i weithio yn y practis. Roedd hyn yn cael ei adolygu ar adeg ein harolygiad.

Gwnaethom archwilio ffeiliau pump o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis ar adeg ein harolygiad. Nodwyd gennym nad oedd dau eirda ysgrifenedig ar gael ar gyfer pedwar o'r pum aelod o staff ac nad oedd hanes cyflogaeth llawn ar gael ar gyfer dau aelod o staff fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi bod yn gweithio yn y practis neu mewn practis a weithredir gan yr un sefydliad darparu ers cyn i'r gofyniad hwn o fewn y rheoliadau presennol gael ei gyflwyno.

Atgoffir y personau cofrestredig y bydd angen i'r wybodaeth a'r dogfennau sy'n ofynnol o dan y rheoliadau presennol fod ar gael ar gyfer yr holl staff a gyflogir neu a fydd yn gweithio yn y practis am y tro cyntaf ar ôl 1 Ebrill 2017, sef y dyddiad y daeth y rheoliadau presennol i rym.

Gwelsom dystiolaeth o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl staff y gwnaethom archwilio eu ffeiliau. Gwelsom dystiolaeth hefyd o'u statws brechu Hepatitis B a thystiolaeth bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith. Roedd contractau cyflogaeth ar gael hefyd.

Disgrifiodd a dangosodd y rheolwr system addas i wirio cofrestriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y deintyddion a'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y practis.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu cyfarfodydd un-i-un gyda'u rheolwr fel rhan o'r broses oruchwyllo ac arfarnu.

Gwelsom gopïau o dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ystod o bynciau sy'n berthnasol i'w rôl. Roedd cydymffurfedd â gofynion hyfforddiant gorfodol yn dda. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod y staff yn cwblhau hyfforddiant fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: {my}dentist, Y Stryd Fawr, Bargod

Dyddiad yr arolygiad: 2 Awst 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes angen cynllun gwella ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: {my}dentist, Y Stryd Fawr, Bargod

Dyddiad yr arolygiad: 2 Awst 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y Swyddog cyfrifol gwasanaeth	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddarparu cynnig rhagweithiol i'r cleifion i gyfathrebu yn Gymraeg yn unol â'u dymuniadau a'u dewisiadau.	Safon 3.2	Mae poster ar gael ar yr hysbysfwrdd cleifion yn hysbysu'r cleifion bod yr holl wybodaeth hefyd ar gael yn Gymraeg. Gan nad oes siaradwyr Cymraeg yn y practis, mae gwasanaethau cyfieithu ar gael pe bai claf yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg. Bydd nod R4 yn cael ei osod ar gofnodion y cleifion i nodi eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu.	Rheolwr y Practis Wedi'i gwblhau ac yn parhau i gofnodi dewis iaith cyfathrebu'r claf
Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a	Safon 5.1	Mae'r practis wedi sefydlu dyddiaduron clyfar sy'n dyrannu nifer o slotiau apwyntiad fesul triniaeth fesul deintydd bob	Rheolwr y Practis Cwblhawyd

gymerwyd i wella mynediad cleifion i apwyntiadau.		dydd. Mae slotiau apwyntiadau brys hefyd wedi'u cynnwys yn y dyddiaduron i sicrhau bod apwyntiadau brys ar gael bob dydd. Mae therapydd yn ymuno â'r feddygfa ar 7 Tachwedd gan weithio pedwar diwrnod yr wythnos a fydd hefyd yn hwyluso mynediad cleifion at apwyntiadau.		
Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella ymwybyddiaeth y cleifion o sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol 'y tu allan i oriau'.	Safon 5.1	Mae'r rhif ffôn ar gyfer cysylltu 'y tu allan i oriau' ar gael ar beiriant ateb y practis pan fydd y practis ar gau, wedi'i osod ar yr hysbysfwrdd cleifion a hefyd yn y ffenestr flaen.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gywiro'r wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion ar sut i wneud cwyn.	Safon 6.3 Rheoliad 21	Mae'r hysbysfwrdd gwybodaeth cleifion wedi'i adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu'r wybodaeth gywir ar sut i wneud cwyn.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gynnal asesiad risg	Safon 2.1 Rheoliad 16	Mae arwydd preifat ar gael ar y drws ac mae asesiad risg wedi'i gwblhau.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

<p>ffurfiol a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i hynny i atal mynediad anawdurdodedig i'r ystafell ddihalogi.</p>				
<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi digon o wybodaeth i gleifion am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dod i gysylltiad ymbelydredd ïoneiddio (pelydr-X).</p> <p>Rheoliadau Ymbelydredd ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Safon 2.9 Rheoliad 16</p>	<p>Mae tudalen 50 o'r Canllawiau ar gyfer Ymarferwyr Deintyddol ynghylch defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, fersiwn 2, y Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol (FGDP) wedi'i gosod ym mhob ystafell triniaeth.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau a nodwyd o yn adran 'Cadw cofnodion' yr adroddiad hwn mewn perthynas â chwblhau cofnodion y cleifion.</p>	<p>Safon 3.5 Rheoliad 20</p>	<p>Mae cofnodion yn edrych yn ôl wedi'u hysgrifennu o ganlyniad i ganfyddiadau'r archwiliad o'r cardiau cofnodion. Ers hynny mae archwiliadau newydd wedi'u cwblhau sydd wedi dangos gwelliannau. Os na fydd yr archwiliadau nesaf yn dangos gwelliant parhaus, yna byddwn yn cysylltu â'r rheolwr cymorth clinigol i adolygu'r archwiliadau a llunio cynllun gweithredu.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Cwblhawyd</p>

<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gywiro'r wybodaeth yn y datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion fel y nodir yn adran 'Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd' yr adroddiad hwn.</p> <p>Rhaid anfon copïau diwygiedig o'r ddwy ddogfen i AGIC o fewn 28 diwrnod i'r adeg pan y'u hadolygwyd.</p>	<p>Rheoliad 5</p> <p>Rheoliad 6</p> <p>Rheoliad 7</p>	<p>Roedd fersiwn ddiweddaraf y Datganiad o Ddiben, fersiwn 1.6, a gyflwynwyd drwy Objective Connect ar 21 Gorffennaf 2022 yn cynnwys hyperddolenni a oedd yn gweithio ac yn cyfeirio at fersiwn ddiweddaraf Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, ond mae oriau agor y practis wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r daflen gwybodaeth i gleifion ac mae fersiwn newydd 1.7 wedi'i chyflwyno drwy Objective Connect ar 14/9/2022.</p>		
---	---	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Natalie Watson / Sarah-Jane Davies

Swydd: Rheolwr Practis / Swyddog Rheoleiddio

Dyddiad: 21/9/2022